Annwyl Alun Thomas,

Dim ond nodyn brysiog i ddatgan fy nghefnogaeth i'r egwyddor cyffredinol o sefydlu Sianel Gymraeg i Blant. Bydd yn gwneud y sianel yn fwy hygyrch i blant a bydd rhoi'r rhaglenni ar sianel blant ar wahân yn creu brand penodol ar gyfer plant, mewn ffordd nid annhebyg i'r hyn y mae darparwyr rhaglenni teledu plant eraill wedi ei wneud yn Saesneg.

Ar y cyfan credaf fod y rhaglenni plant a ddarlledir ar S4C ymysg y rhaglenni gorau a ddarlledir ar y sianel. Mae'r ochr addysgol yn hollbwysig wrth gwrs, ond mae'n hanfodol hefyd bod elfen hwyliog (a gwirion, hyd yn oed) yn y rhaglenni e.e. Hotel Eddie.

Un peth a sylwais wrth ddarllen drwy'r ddogfen oedd y geiriau "gwasanaeth Cymraeg *yn bennaf*" (paragraff 3.4.1.3). Yn fy marn i, gwasanaeth uniaith Gymraeg ddylai unrhyw wasanaeth i blant a sefydlir gan S4C fod. Mae nifer y plant sy'n medru'r Gymraeg yn uwch nag erioed ac mae rol hollbwysig gan y cyfryngau, yn enwedig gwasanaeth cyhoeddus, o ran cyfrannu at sgiliau iaith y plant hynny.

O ran yr opsiynau ym mharagraffau 4.3.1 a 4.3.2, yr ail opsiwn fyddai fy newis i. Er pwysiced yw gweithgareddau'r Cynulliad -- ac efallai y dylid ystyried ffyrdd eraill o sicrhau y darlledir y sesiynau oddi yno -- fy marn i yw bod sicrhau gwasanaeth mwy cynhwysfawr i blant yn Gymraeg yn bwysicach o ran diogelu a hybu'r Gymraeg fel iaith bob dydd, sef fy rheswm dros ysgrifennu atoch.

Bydd creu gwasanaeth Cymraeg i blant yn gam mawr ymlaen, ac yn hynny o beth mae Awdurdod S4C i'w ganmol am ei flaengaredd a'i awydd i wella a datblygu gwasanaethau yn hytrach nag aros yn yr unfan. Mae'r syniadau o ran gwasanaethau cydgyfeiriol ac ati yn swnio'n gynhyrfus iawn, a dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth pwysig hwn.

Yn gywir,

Osian Rhys.